Teitl y Swydd:	Prentis Gweithgareddau Awyr Agored yr Urdd, Gwersyll Glan-llyn.
Yn atebol i:	Pennaeth Gweithgareddau Gwersyll Glan-llyn
Cyflog:	Cyflog yn gyfartal â'r Gyfradd Prentis Cenedlaethol
Hyd y cytundeb:	Bydd y cynllun hyfforddiant yn para am flwyddyn (o Fedi 2018 – Awst 2019)
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos – oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa. Gweler isod am fwy o fanylion.
Lleoliad:	Gwersyll Glan-llyn

Mae Gwersyll Glan-llyn yn lansio ei gynllun Prentisiaeth Gweithgareddau Awyr Agored ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018 - 19 ac yn chwilio am nifer o bobl frwdfrydig i ymuno â'r cynllun cyffrous hwn.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Huw Antur Edwards (Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-llyn) ar 01678 541 000 neu huwantur@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau - 18fed o Fehefin 2018, 10:00 y.b.
Dyddiad Cyfweld - wythnos yn cychwyn 25ain o Fehefin 2018

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	**Prentis Gweithgareddau Awyr Agored**	**Lleoliad:**	**Gwersyll yr Urdd Glan-llyn**
Adran:	**Glan-llyn**	**Rheolaeth Llinell:**	**Rheolwr Gweithgareddau**
Yn adrodd i:	**Gyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn**	**Graddfa:**	**Cyfradd Prentisiaeth Genedlaethol**

Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynorthwyo'r tîm gweithgareddau yng ngwersyll Glan-llyn i gynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyletswyddau a manylion y swydd:

1. Bydd y cyfnod hyfforddiant yn para am flwyddyn gan gychwyn ar Fedi 1af 2018 tan ddiwedd Awst 2019. Disgwylir i hyfforddai gydweithio fel rhan o dîm yr Adran Weithgareddau.

2. Bydd pecyn ariannol o £562 y mis yn cael ei gynnig bydd yn cynnwys lwfans byw yn ogystal â threfniadau hyfforddiant a llety. Bydd cyfradd uwch i rai sydd wedi graddio ac sydd dros 21 oed.

   Bydd yr hyfforddai yn gweithio mewn rota gyda gweddill aelodau'r adran. Yn ogystal â hynny, fe fydd yn ofynnol i'r hyfforddai fod ar ddyletswydd gyda'r hwyr (5-10 o'r gloch) o leiaf unwaith yr wythnos er mwyn ymateb i unrhyw ymholiad gan arweinyddion y cwrs/cyrsiau ac i fod yn ddolen gyswllt rhwng yr arweinyddion a'r rheolwr sydd ar ddyletswydd gyda'r hwyr.

3. Rhoddir 25 diwrnod yn rhydd o'r cynllun hyfforddai yn ystod y flwyddyn. Rhaid neilltuo tridiau i'r cyfnod rhwng Nadolig a'r flwyddyn newydd a rhaid cymryd o leiaf chwe diwrnod yn ystod 2018 a'r gweddill yn 2019.

4. Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan yn yr holl hyfforddiant a gynigir. Anelir at dystysgrifau cenedlaethol:

   - Tystysgrif 2/3 Seren Canŵio a Ceufadu.
   - Hyfforddwr Canŵio a Ceufadu UKCC Lefel 1
   - Tystysgrif Hwylio Lefel 2.
   - Tystysgrif Cwch Achub Lefel 2
   - Tystysgrif FSRT Foundation Safety Rescue Training
   - Hyfforddiant Saethyddiaeth Lefel 1
   - Tystysgrif Cymorth Cyntaf
   - Cwrs Achub Bywyd Pwll Nofio
   - Hyfforddwr ERCA Cwrs Rhaffau
   - I ymgeiswyr sydd â phrofiad blaenorol o Fynydda a Dringo mae yn bosibl mynd ymlaen i ennill cymhwyster Lowland Leader, Hyfforddiant Arweinydd Mynydd a Gwobr Dringo Dan Do ac SPA.
   - NVQ – bydd y cynllun yn arwain at brentisiaeth Lefel 2 Llywodraeth Cymru.

5. Er mwyn ennill y tystysgrifau disgwylir i'r ymgeiswyr ymarfer y tu allan i oriau arferol y cynllun. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod rhoddir hyfforddiant mewnol yn holl weithgareddau mewnol amrywiol y gwersyll, a cheir profiad o weithio gyda Gwasanaeth Awyr Agored Gwersyll Glan-llyn.

6. Disgwylir i'r hyfforddai ymgymryd â'r cynllun o ddydd Llun i Wener i ddechrau gyda dyletswydd nos unwaith yr wythnos, ac yna ar ôl cyfnod o hyfforddiant, bydd yr hyfforddai yn mynd ar rota staff y Gwersyll sy'n golygu bod ar ddyletswydd yn achlysurol ar benwythnosau ac oriau hwyr ac anghymdeithasol. Fe roddir amser ychwanegol i ffwrdd am hyn.

7. Mae llawer o ddyletswyddau cyffredinol y Gwersyll yn disgyn i ran aelodau'r Adran Weithgareddau. Bydd y rhain yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw gwahanol ardaloedd ac offer o fewn y Gwersyll, llenwi peiriannau bwyd a diod, a rhoi cymorth i adrannau eraill y Gwersyll yn ôl y galw.

8. Bydd yr hyfforddai yn uniongyrchol yn atebol i Bennaeth yr Adran Weithgareddau a thrwyddo ef i'r Cyfarwyddwr.

9. Oherwydd natur y Gwersyll, fe fydd rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i alwadau a gofynion amrywiol o dro i dro.

Manyldeb y person a'r meini prawf:

<u>Hanfodol</u>

1. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn 18 oed, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda diddordeb mewn plant a phobl ifanc, ac yn meddu ar bersonoliaeth radlon a brwdfrydig.

2. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd.

<u>Dymunol</u>

1. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn fanteisiol.

2. Byddai profiad o hyfforddi yn fanteisiol.

3. Byddai profiad o waith gwirfoddol i'r Urdd neu unrhyw fudiad gwirfoddol arall o fantais.

Nodiadau i ymgeiswyr:

i. I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.

ii. Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:
Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.
Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2018 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	**Prentis Gweithgareddau Awyr Agored Glan-llyn**
Yn atebol i:	Pennaeth Gweithgareddau Gwersyll yr Urdd Glan-llyn a thrwyddo ef i Gyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn
Cyflog:	Ar gyfradd Prentis Cenedlaethol sef £3.70 yr awr gan gynnwys llety yn y gwersyll yn rhad ac am ddim.
Cytundeb:	12 mis
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos.
Lleoliad:	Gwersyll Glan-llyn.
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 3 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.